**Deuddegfed Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017**
**Ystafelloedd Cynadledda C+D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

## AELODAU

### Llywodraeth Cymru

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cynghorydd Debbie Wilcox, arweinydd CLlLC (Casnewydd)
Y Cynghorydd Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLlLC (Sir y Fflint)
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLlLC (Tor-faen)
Y Cynghorydd Andrew Morgan, Swyddog Llywyddu CLlLC (Rhondda Cynon Taf)
Y Cynghorydd Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cynghorydd Peter Fox OBE (Sir Fynwy)
Y Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam)

## YN BRESENNOL

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

Alex Rawlin – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Clare Blake – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

### Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Chris Llewelyn – Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau
Nigel Aurelius – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau), Tor-faen

## YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn, CLlLC (Gwynedd)
Y Gwir Anrh. Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Steve Thomas, Prif Weithredwr, CLlLC

**Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau, yn enwedig yr aelodau newydd: y Cynghorydd Debbie Wilcox, y Cynghorydd Mark Pritchard a'r Cynghorydd Paul Miller. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol**

2. Cytunwyd y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel gwir gofnod. Nid oedd camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG)**

3. Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru bapur a oedd yn crynhoi cylch gorchwyl a rhaglen waith yr Is-grŵp dosbarthu ar gyfer 2017 gan amlinellu'r cynnydd a wnaed dros dri chyfarfod cyntaf y flwyddyn. Nododd aelodau'r Is-grŵp Cyllid eu bod am gael gwell syniad o waith yr Is-grŵp dosbarthu a chael mwy o rôl wrth lunio'r gwaith y mae'r is-grŵp hwnnw'n ei wneud.

**Cam gweithredu:** CLlLC a swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid gwella'r modd y mae aelodau'r Is-grŵp Cyllid ac yn ehangach na hynny, yr arweinyddiaeth yn lleol yn cael gwybod am waith yr Is-grŵp Dosbarthu.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Papur CLlLC ar Faterion Cyllido Llywodraeth Leol**

4. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y newyddion diweddaraf i'r Grŵp am y trafodaethau gyda chyd aelodau'r Cabinet fel rhan o ystyriaethau'r gyllideb. Bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi gam wrth gam. Y bwriad yw cyhoeddi gwybodaeth lefel uchel ar 3 Hydref, gyda gwybodaeth fanylach i ddilyn yn ddiweddarach y mis hwnnw. Bydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei chyhoeddi cyn y Nadolig a bydd y Cynulliad yn ei hystyried yn y Flwyddyn Newydd.

5. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r grŵp ei fod yn edrych ar gynyddu hyblygrwydd o amgylch grantiau penodol ac yn edrych i sicrhau rhai trosglwyddiadau i setliad ar gyfer 2018-19.

6. Cyflwynodd swyddogion CLlLC bapur a oedd yn nodi ei asesiad o'r pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol. Yn ei barn hwy, nid oedd y sefyllfa wedi newid rhyw lawer o'i gymharu â'r hyn a nodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol ond roedd y pwysau'n cynyddu..

**Eitem 5 ar yr Agenda: Diwygio Llywodraeth Leol - Y diweddaraf (Papur 4)**

7. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai yn gwneud datganiad ynghylch diwygio Llywodraeth Leol ar 18 Gorffennaf

8. Cyfarfu grŵp newydd ar ddiwygio llywodraeth leol ar 10 Gorffennaf a bydd ganddo is-grŵp er mwyn ystyried y trefniadau cyllid sydd eu hangen i gefnogi gweithio'n rhanbarthol.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

9. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ymestyn y cyfarfod nesaf o’r Is-grŵp Cyllid i awr a hanner.